**<u>Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru</u>**
**Cyfarfod dros Microsoft Teams**
**Dydd Iau 18 Rhagfyr 2025 13:30 – 15:30**

## <u>Cofnodion</u>

### <u>Yn bresennol</u>

| | |
|---|---|
| Jane Hutt AS (Cadeirydd) | Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip |
| Sarah Jones | AS y Gweinidog dros Blismona a Throseddu, y Swyddfa Gartref |
| Ifan Charles | Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys |
| Mark Hobrough | Prif Gwnstabl Heddlu Gwent |
| Amanda Blakeman | Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru |
| Jason Davies | Dirprwy Brif Gwnstabl Heddlu De Cymru |
| Dafydd Llywelyn | Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Dyfed Powys |
| Jane Mudd | Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent |
| Andy Dunbobbin | Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru |
| Emma Wools | Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru |
| Eleri Thomas | Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent |
| Wayne Jones | Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru |
| Kate Jackson | Prif Swyddog Cyllid, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru |
| Mike Connolly | Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-adran Diogelwch Cymunedol, Llywodraeth Cymru |
| Sasha Yilmaz | Pennaeth Trosedd a Chyfiawnder, Llywodraeth Cymru |
| James Gerard | Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi Cyfiawnder, Llywodraeth Cymru |
| Claire Russell-Griffiths | Uwch-reolwr, y Tîm Troseddu a Chyfiawnder, Llywodraeth Cymru |
| Leanne Lewis | Rheolwr, y Tîm Troseddu a Chyfiawnder, Llywodraeth Cymru |
| Sarah Melkevik | Pennaeth Strategaeth VAWDASV, Llywodraeth Cymru |
| Joanne Hopkins | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Ian Barrow | Cyfarwyddwr Gweithredol Cymru, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi |
| Harry Gerrard | Swyddog Datganoli, Tîm y Swyddfa Gartref yng Nghymru |
| Gregg Dyer | Pennaeth Materion Domestig, Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru |
| Naomi Alleyne | Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Corfforaethol (Polisi), CLILC |
| Y Cynghorydd Andrew Morgan, Cyngor Rhondda Cynon Taf | |
| Mark Brace | Pennaeth y Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel, CLILC |
| Carys Morgans | Prif Weithredwr, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Dyfed Powys |
| Sian Curley | Prif Weithredwr, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent |
| Lee Jones | Prif Weithredwr Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru |
| Stephen Hughes | Prif Weithredwr, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru |
| Paul Morris | Pennaeth Uned Gyswllt yr Heddlu |
| Stacey Evans | Rheolwr Polisi Cymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu Cymru, Plismona yng Nghymru |
| Joanna Huddleston | Gweinyddydd, Uned Gyswllt yr Heddlu |

<u>Ymddiheuriadau</u>

| | |
|---|---|
| Jeremy Vaughan | Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru |
| Judith Paget | Cyfarwyddwr Cyffredinol HSSG, Prif Weithredwr GIG Cymru, Llywodraeth Cymru |
| Helen Hill | Rheolwr Busnes a Datblygu Rhwydweithiau, Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel, CLILC |
| Tracy Cooper | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Jenny Hopkins | Prif Erlynydd y Goron, Gwasanaeth Erlyn y Goron |
| David Holloway-Young – | Prif Swyddog Cyllid, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru |

| **Camau gweithredu yn codi o'r cyfarfod** | |
|---|---|
| Mike Connolly/Swyddogion Llywodraeth Cymru i sicrhau cyfarfod rhwng Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip a Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu yng Nghymru ar gyfer canol mis Ionawr 2026. | Mike Connolly/Swyddogion Llywodraeth Cymru |
| Swyddogion Llywodraeth Cymru i gadarnhau bod sylw yn cael ei roi i'r mater sy'n ymwneud â chyllid cwnsela i Wasanaethau Ymosodiadau Rhywiol Cymru. | CSSJTCW/Swyddogion Llywodraeth Cymru |

## 1. Gair o Groeso ac Anerchiad gan y Cadeirydd

Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod a chroesawodd bawb a oedd yn bresennol. Nododd ei bod yn ddiolchgar bod y Gweinidog dros Blismona a Throseddu, Sarah Jones AS, yn bresennol am awr gyntaf y cyfarfod.

Cydnabu'r Cadeirydd y dioddefwyr, eu teuluoedd a'r gymuned Iddewig yn dilyn yr ymosodiad terfysgol ar Draeth Bondi yn ystod Hanukkah a nododd mai yn y cyfarfod diwethaf ym mis Hydref 2025 y cydnabuwyd yr ymosodiad erchyll yn Synagog Cynulleidfa Hebrëig Heaton Park ym Manceinion. Roedd yr ymosodiad terfysgol ar Draeth Bondi yn ymosodiad gwrthsemitaidd ar bobl a oedd wedi dod ynghyd i ddathlu gŵyl gyhoeddus, waeth beth fo credoau neu gefndir unigolyn, mae hwn yn ymosodiad ar ryddidau a rennir. Nododd ei bod yn adeg ofidus iawn i gymunedau Iddewig yng Nghymru a chyfeiriodd at y ffaith ei bod wedi manteisio ar y cyfle i gyfarfod â chynrychiolwyr o'r gymuned Iddewig ar Fforwm Cymunedau Ffydd Llywodraeth Cymru yn ogystal â digwyddiad goleuo dathliadau Hanukkah yn y Senedd. Mae'n parhau i weithio gyda'r Heddlu ac Arweinwyr Ffydd ac roedd am ddiolch i Plismona yng Nghymru am ddarparu patrolau tawelu meddwl ychwanegol i Synagogau yng Nghymru.

Nododd iddi hefyd gyfarfod â Dr Ahmed, Cadeirydd Cyngor Mwslimiaid Cymru yn sgil yr ymosodiadau honedig ar ôl i'r achos llys troseddol ddechrau'n ddiweddar yn Llundain. Trafodwyd effaith yr ymosodiad diweddar hefyd â Dr Ahmed a nododd fod disgwyl i gyfarfod gael ei gynnal ym Mosg Madina â Phrif Uwch-arolygydd Heddlu De Cymru.

## 2. Diwygio Trefniadau Llywodraethu Plismona: Y Goblygiadau i Gymru

Cydnabu'r Gweinidog dros Blismona a Throseddu mai Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru yw'r bont rhwng materion plismona datganoledig a materion plismona a gedwir yn ôl yng Nghymru. Nododd fod Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi'r penderfyniad i ddiddymu rôl Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ar ddiwedd eu cyfnod yn y swydd yn 2028. Pwysleisiodd nad oedd y penderfyniad yn adlewyrchu'r gwaith a oedd wedi cael ei wneud gan Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ond, yn hytrach, ei fod yn adlewyrchu'n fwy y model nad oedd yn gweithio fel y bwriadwyd yn wreiddiol, yn eu barn nhw.

Cydnabu fod gan Gymru set wahanol o strwythurau ar waith ac nad yw'n datblygu'r Model Maerol fel mae Lloegr yn ei wneud. Nododd mai'r nod yw gwneud i'r model weithio er mwyn diffinio sut y bydd yn gweithredu yn y dyfodol ond bod hyn yn dibynnu ar Bapur Gwyn Diwygio Tirwedd yr Heddlu a gyhoeddir ym mis Ionawr 2026 o ran sut beth fydd tirwedd yr heddlu yn fwy cyffredinol. Fodd bynnag, mae 10 gweithgor gwahanol wedi'u sefydlu gyda Chymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu sy'n ystyried y gwahanol agweddau y mae Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yn eu goruchwylio megis comisiynu, atebolrwydd ac ati er mwyn gwneud yn siŵr bod hyn yn parhau y tu hwnt i 2028.

**2.1.** Diolchodd y Cadeirydd i Sarah Jones AS a nododd, ers i'r penderfyniad i ddiddymu rôl Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu gael ei gyhoeddi, ei bod wedi cofnodi gwerthfawrogiad Llywodraeth Cymru am y gwaith y mae Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu wedi'i wneud yn y Senedd. Nododd ei bod yn ymrwymedig o hyd i gefnogi Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yng Nghymru a'u timau ac mai'r mater allweddol yw'r canlyniad gorau i gymunedau a'r hyn a fydd yn darparu'r gwasanaeth plismona mwyaf effeithiol ar eu cyfer ac yn meithrin y lefel uchaf o ymddiriedaeth a hyder. Nododd y Cadeirydd bod modelau llywodraethu lleol a rhanbarthol gwahanol ar waith yng Nghymru gyda strwythurau deddfwriaethol gwahanol gan gynnwys Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru ac, felly, ei bod o'r farn bod angen trafod hyn mewn ffordd agored ac adeiladol yn y cyfarfod hwn. Roedd ar ddeall i'r pwynt hwn gael ei wneud pan gyfarfu Prif Weinidog a Dirprwy Brif Weinidog Cymru â Phrif Weinidog y DU yn ddiweddar pan dderbyniodd bwysigrwydd peidio â gosod yr un dull gweithredu ledled Cymru a Lloegr, gan gydnabod bod angen cydweithio â rhanddeiliaid yng Nghymru. Roedd y Cadeirydd o'r farn y dylai'r egwyddorion cychwynnol sicrhau y dylai trefniadau craffu a llywodraethu fod yn dryloyw i'r cyhoedd,

parchu annibyniaeth weithredol plismona, sicrhau bod gan bob cymuned leol lais, rhaid sicrhau bod gan strwythurau newydd ddarpariaethau i fod yn hygyrch i'r cyhoedd gyda chyfrifoldebau wedi'u diffinio'n glir am wneud penderfyniadau yn ogystal â'r trefniadau newydd er mwyn sicrhau bod gan Gymru lais pwerus yn y trafodaethau hyn. Gorffennodd drwy awgrymu bod pwnc datganoli plismona wedi'i agor i'w ystyried gyda'r penderfyniad i ddiwygio strwythurau plismona a nododd ei fod yn rhan o ddadl Seneddol ar y ddeddfwriaeth sydd i'w chyflwyno ac, felly, fod Llywodraeth Cymru yn gobeithio y bydd Senedd y DU yn agored ei feddwl ynglŷn â'r posibilrwydd o ddatganoli wrth i'r trefniadau gorau ar gyfer Cymru gael eu hystyried.

**2.2.** Nododd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Wools, fel grŵp o Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yng Nghymru, fod y cyhoeddiad wedi'i siomi ond eu bod wedi troi eu sylw at sicrhau bod y dirwedd gyflawni unigryw yng Nghymru yn cael ei chydnabod. Mae Plismona yng Nghymru wedi ymateb yn gyflym ac yn adeiladol i'r cyhoeddiad drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol a phartneriaid yn ogystal â deall bod Plismona yng Nghymru mewn sefyllfa unigryw o ran deall y model ar ei ffurf bresennol ac, felly, y gall helpu i ysgogi a llywio'r camau nesaf. Roedd am nodi bod hwn yn gyfnod heriol i Swyddfeydd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a staff yn y swyddfeydd hynny ond eu bod wedi ymddwyn â'r lefel uchaf o broffesiynoldeb o ran eu hymateb.

Mae angen sicrhau na fydd diwygiadau yn rhoi cymunedau yng Nghymru o dan anfantais o gymharu â Lloegr. Felly, mae Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yn ystyried sut y gallant ddefnyddio'r nodweddion a'r egwyddorion allweddol o'r Model Maerol a chydnabod, ar yr un pryd, y bydd angen i unrhyw fodel adlewyrchu'r trefniadau cyfansoddiadol sy'n wahanol yng Nghymru.

Mae Plismona yng Nghymru wedi gwneud cryn ymdrech i sicrhau bod y gwahaniaeth yng Nghymru a llais Cymru yn cael eu cydnabod yn genedlaethol ac mae'n dda ganddi ddweud bod Plismona yng Nghymru wedi'i gynnwys mewn trefniadau llywodraethu a'r 10 ffrwd waith y cyfeiriwyd atynt. Mae'n bwysig nodi bod gan Gymru enw da a berchir ers tro o ran gweithio mewn partneriaeth yng Nghymru ac, felly, y bydd angen i unrhyw fodel olynol alluogi a chynnal y bartneriaeth rhwng gwasanaethau datganoledig ac annatganoledig. Mae Plismona yng Nghymru eisoes wedi cyfarfod er mwyn dechrau ystyried trefniadau llywodraethu yn y dyfodol gan fod yn ymwybodol o'r ffaith ei fod yn fenter bartneriaeth a nododd ei bod yn falch bod y Cynghorydd Andrew Morgan yn bresennol yn y cyfarfod fel Cadeirydd presennol CLILC gan y bydd ei safbwynt a'i gydweithwyr yn hanfodol ar gyfer trefniadau yn y dyfodol.

Mae'r egwyddorion dylunio allweddol sydd wedi'u trafod yn cyflawni'r canlyniadau gorau i gymunedau yng Nghymru, gan barhau â'r ffocws ar ddioddefwyr, atal a'r agenda diogelwch cymunedol. Mae Plismona yng Nghymru yn awyddus i gysoni polisïau ac integreiddio systemau yn fwy rhwng y dirwedd ddatganoledig ac annatganoledig, meithrin cryfder o'r ffordd y mae model Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu wedi'i roi ar waith yng Nghymru a galluogi llais cryf o safbwynt Cymru, gan ddeall y bydd diwygiadau ehangach yn creu canolbwynt cryfach i ganolbwyntiau'r DU ond cofio bod llais Cymru yn rhan hanfodol o hynny, gydag atebolrwydd yn cael ei alinio â chyllid a phrosesau gwneud penderfyniadau a sicrhau y gall unrhyw heddlu ystyried unrhyw gyhoeddiadau yn y dyfodol gan fod Plismona yng Nghymru wedi bod yn trafod pwysigrwydd haen genedlaethol a rhanbarthol i drefniadau llywodraethu yn y dyfodol gyda rôl ffurfiol i Fwrdd Partneriaeth Plismona Cymru sy'n ategu strwythurau rhanbarthol.

**2.3.** Nododd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Llywelyn fod Plismona yng Nghymru wedi bod yn cyfrannu at y Papur Gwyn ers rhyw 12 mis bellach.

Ailddatganodd sylw'r Cadeirydd am fod yn agored ein meddwl mewn perthynas â datganoli, am fod y Papur Gwyn yn gyfle prin i wneud diwygiadau sylfaenol i'r sector plismona, gan ychwanegu bod sawl comisiwn wedi cyhoeddi papurau sy'n cyfeirio at y cyfleoedd a fyddai'n codi yng Nghymru drwy ddatganoli plismona. Mae'n bwysig deall trefniadau llywodraethu'r heddlu ochr yn ochr â'r posibilrwydd o ddatganoli Cyfiawnder Ieuenctid a'r Gwasanaeth Prawf. Felly, yn ei farn ef, mae angen lywio drwy'r gweithgarwch gan y bydd cryn dipyn o waith yn cael ei wneud yng Nghymru ar sail partneriaeth drwy Fwrdd Partneriaeth Plismona Cymru a Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru, lle mae pob partner yn y system Cyfiawnder Troseddol a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yng Nghymru sy'n cadeirio eu Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol eu hunain yn cyfarfod i drafod materion ar lefel Cymru.

Cyfeiriodd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Llywelyn at y sefyllfa gyllido unigryw yng Nghymru o ran cyllido'r Heddlu am fod lefelau'r Praesept a'r Dreth Gyngor, o gymharu â chyllid y Trysorlys drwy'r

Swyddfa Gartref, yn y chwartel uchaf, gyda'r pedwar Heddlu yng Nghymru yn aml iawn ymhlith y 10 uchaf o ran canran y Praesept, gan nodi y gallai'r Ganolfan Blismona Genedlaethol Newydd waethygu'r sefyllfa honno pe bai unrhyw gyllid yn cael ei frigdorri o gyllidebau heddluoedd.

**2.4.** Nododd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Mudd ei bod yn gobeithio bod cryfder y gwaith partneriaeth yng Nghymru yn amlwg o'r trafodaethau ond roedd hefyd yn awyddus i wneud pwynt mewn perthynas â'r gwahanol amserlenni ar gyfer rhai agweddau ar y gwaith hwn oherwydd y cylch etholiadau yng Nghymru, gydag etholiadau'r Senedd yn cael eu cynnal yn 2026 ac etholiad Llywodraeth Leol yn cael ei gynnal yn 2027, ac mae o'r farn y bydd yn effeithio ar bob un o gynrychiolwyr CLILC yn hytrach na dim ond ar rai ohonynt, felly gallai fod llawer o newidiadau yng Nghymru yn ystod y prosesau hynny sy'n golygu bod y trafodaethau sy'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd yn hollbwysig tra bod pobl sydd â'r wybodaeth a'r profiad i wneud cyfraniadau effeithiol. Gofynnodd hefyd i'r Gweinidog dros Blismona a fyddai'n bosibl symud i ffwrdd o'r naratif o arbrawf a fethodd oherwydd yr effaith andwyol y mae'n ei chael ar lesiant y timau profiadol yn Swyddfeydd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu.

**2.5.** Nododd Prif Gwnstabl Blakeman fod Prif Gwnstabliaid yn arddel safbwynt niwtral o ran diddymu model Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a datblygu'r trefniadau newydd, a hynny'n fwriadol, gan y byddant yn cael eu dwyn i gyfrif am unrhyw drefniant newydd ond bod Prif Gwnstabliaid wedi bod yn rhoi cyngor ac arweiniad proffesiynol o safbwynt gweithredol yn seiliedig ar fodelau llywodraethu sydd ar waith mewn rhanbarthau eraill. Mae'n credu y gallant ddysgu o'r modelau hynny yn ychwanegol at gyfrifoldeb Prif Gwnstabliaid o dan y gyfraith. Mae egwyddor annibyniaeth weithredol yn hollbwysig am ei bod wrth wraidd plismona drwy gydsyniad ac, felly, mae'r Prif Gwnstabliaid yn cytuno na all y trefniadau llywodraethu newydd danseilio hynny.

Cynhaliwyd Diwrnod Cwrdd i Ffwrdd Plismona yng Nghymru lle y trafododd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, Prif Gwnstabliaid a Chyfarwyddwyr Cyllid opsiynau llywodraethu a lle y gwnaed ymrwymiad i barhau i gydweithio wrth i gynigion ddatblygu a hynny ar yr un diwrnod ag y cyhoeddwyd erthyglau yn y cyfryngau mewn perthynas â'r bwriad i leihau nifer yr heddluoedd i gyn lleied â 12 yn y DU. Cydnabu mai penderfyniad gwleidyddol ydyw ond nododd fod gan Brif Gwnstabliaid yn gof corfforaethol enfawr o brofiad blaenorol ac, felly, y byddai ganddynt lawer i'w gyfrannu mewn trafodaeth ynghylch y mater hwn.

Cydnabu Prif Gwnstabl Blakeman y sylwadau blaenorol ynghylch datganoli, gan nodi bod plismona yn dal i fod yn wasanaeth a gedwir yn ôl a bod hynny'n berthnasol wrth ddatblygu model llywodraethu newydd gan y byddai heddluoedd yn ei chael hi'n anodd cael eu dwyn i gyfrif gan sefydliad nad oes ganddo unrhyw ysgogiadau cyllido na chyfrifoldebau am blismona.

Mewn perthynas â'r setliad cyllido a gyhoeddwyd, mae rhwymedigaeth statudol ar Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu i bennu cyllideb gytbwys ond mae hyn yn dibynnu ar yr hyn sydd yn y llythyr setliad ac a oes gan heddluoedd ddigon o fanylion i bennu cyllideb, yn achos rhai heddluoedd roedd y terfyn amser ar gyfer y papurau wythnos cyn i fanylion y setliad gael eu cyhoeddi ac, o ganlyniad, roedd heddluoedd yn chwilio am atebion i lawer o gwestiynau y maent yn gobeithio y byddant yn fanwl yn y setliad er mwyn iddynt allu gwneud y penderfyniad mwyaf gwybodus ynghylch sut y caiff adnoddau eu defnyddio. Nododd fod y gofyniad sy'n gysylltiedig â'r Warant Plismona yn y Gymdogaeth o ran manylion megis cyllid amnewid Airwave a ffrydiau cyllido eraill a ddelir yn ganolog yn cael ei adlewyrchu yng nghynlluniau heddluoedd lleol heb unrhyw ddyddiad pendant wedi'i bennu ar gyfer cyhoeddi manylion pellach am y setliad a all ei gwneud hi'n anodd cynllunio a rhedeg sefydliad ar sail hirdymor, gan ychwanegu y byddai gallu mynd ar y blaen i'r penderfyniadau yn helpu ymgyrchoedd y Llywodraeth megis recriwtio ar gyfer y Warant Plismona yn y Gymdogaeth ac ati i wneud cynnydd am fod maint y cynnydd y gellir ei wneud yn dibynnu ar fanylion y setliad cyllido. Fodd bynnag, mae cymunedau yng Nghymru yn talu mwy na'r setliad cyllido ar hyn o bryd am fod lefelau Praesept yn wahanol yng Nghymru.

**2.6.** Cydnabu Sarah Jones AS bwynt Prif Gwnstabl Blakeman mewn perthynas â chyllido ac esboniodd fod Llywodraeth y DU yn deall ei bod yn sefyllfa anodd ond, oherwydd natur y Papur Gwyn a'r newidiadau y bydd yn eu creu, fod angen cysoni'r trefniadau cyllido â'r Papur Gwyn. Felly, eleni mae datganiad lefel uchel wedi'i gyhoeddi nad yw'n arfer safonol a bydd cyhoeddiad manylach yn dilyn ym mis Ionawr 2026 ond y gobaith yw y bydd cyhoeddiadau pellach yn gwella'r sefyllfa yn gyffredinol o ran y cymysgedd o weithwyr a galluoedd sydd eu hangen. Y nod yw creu system lle y bydd gan heddluoedd fwy o hyblygrwydd o ran eu cyllideb er mwyn cyflawni'r hyn sydd ei angen yn lleol ond hefyd lle y bydd gan y Ganolfan Blismona Genedlaethol fwy o reolaeth yn gyffredinol.

O ran yr egwyddorion y cyfeiriwyd atynt, mae'n credu bod angen ystyried yr heriau sydd i ddod ond roedd yn cytuno â'r egwyddorion a nodwyd o ran craffu ac annibyniaeth weithredol a'r ffaith y dylai fod gan Gymru lais cryf yn y broses o lunio'r model i Gymru.

Ymatebodd i bwynt Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Mudd ynghylch yr iaith sy'n cael ei defnyddio am Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a sicrhaodd y rhai a oedd yn bresennol ei bod wedi ceisio nodi'n glir ei bod yn ymwneud â newid y strwythur yn hytrach na'r bobl a'r gwaith y maent wedi'i wneud ond nododd ei bod yn deall pwynt Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Mudd.

**2.7.** Ychwanegodd Prif Gwnstabl Blakeman, oherwydd yr holl bethau sy'n digwydd ar hyn o bryd megis yr oedi i'r Papur Gwyn a'r achosion o ddatgelu gwybodaeth gyfrinachol i'r cyfryngau o ran nifer yr heddluoedd a fydd yn cael eu diddymu, fod staff mewn heddluoedd yn dechrau teimlo'n ansicr ynghylch eu dyfodol mewn maes plismona a'i bod yn pryderu, felly, y bydd staff yn gadael ac y bydd heddluoedd yn llai abl i ddenu a chadw talent wrth geisio cyflawni darnau sylweddol o waith sy'n hanfodol i fusnes megis haneru trais yn erbyn menywod a merched, gan nodi ei bod yn bwysig y gall heddluoedd gynnig sicrwydd.

**2.8.** Cydnabu Sarah Jones AS bwynt Prif Gwnstabl Blakeman a nododd fod Llywodraeth y DU yn cael sgyrsiau â llawer o rannau gwahanol o'r system lle mae'r un pryder yn cael ei godi. Y nod yw symud drwy'r cam hwn yn llwyddiannus gyda model gwell a all ddenu a chadw'r bobl orau i weithio ym maes plismona.

**2.9.** Erfynnodd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Dunbobbin ar y Gweinidog dros Droseddu a Plismona i fod yn ymwybodol o'r Ddeddfwriaeth yng Nghymru megis Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol gan nad yw am weld deddfwriaeth yng Nghymru yn cael ei thanseilio.

**2.10.** Daeth y Cadeirydd â'r eitem i ben, gan ddiolch i'r aelodau am eu cyfraniadau. Yn ei barn hi, cydnabyddir y ffaith bod Cymru am helpu gyda'r broses bontio o ran plismona a llywodraethu. Nododd fod cryn dipyn o gefnogaeth i Fwrdd Partneriaeth Plismona Cymru gan y cydnabyddir ei fod yn cynnig rhywfaint o atebolrwydd i'r Senedd yn ogystal â phont i Lywodraeth y DU.

### 3. Diwygio Tirwedd yr Heddlu: Y Datblygiadau Diweddaraf

Gwahoddodd y Cadeirydd y Gweinidog dros Droseddu a Phlismona roi diweddariad ar y datblygiadau diweddaraf o ran Diwygio Tirwedd yr Heddlu gan yr hoffai Cymru gael tryloywder a chyfle i ddylanwadu ar y gwaith sy'n cael ei wneud.

**3.1.** Nododd Sarah Jones AS fod yr Ysgrifennydd Cartref yn gymharol newydd i'r rôl ond ei bod yn adeiladu ar y gwaith a wnaed yn flaenorol. Yn ei barn hi, maen nhw mewn sefyllfa unigryw lle mae cytundeb ymhlith llawer o rannau o'r system blismona ynghylch yr hyn y dylid ei gynnwys yn y Papur Gwyn. Mae gwaith yn dal i fynd rhagddo ar rai agweddau a dyna'r rheswm dros ohirio cyhoeddi'r Papur Gwyn tan ddiwedd mis Ionawr 2026.

Ychwanegodd fod yr Ysgrifennydd Cartref yn awyddus i gyflawni am ei bod am osgoi diwygio'r system blismona heb ddiben o sylwedd ac, felly, fod angen nodi'r rheswm dros ddiwygio'r system yn glir. Mae darn o waith ynghylch monitro perfformiad, mae gan y set ddata y mae Llywodraeth y DU yn ei defnyddio swm mor fach o ddata o ansawdd uchel er mwyn helpu i sicrhau cydgytundeb ar y materion y dylai maes plismona fod yn ei ddwyn ei hun i gyfrif amdanynt, felly mae angen cyfleu i'r cyhoedd fod y gwaith diwygio sylweddol hwn yn cael ei wneud er mwyn cyflawni canlyniadau penodol yn gyfnewid am hynny megis sicrhau ein bod yn ymateb i drais yn erbyn menywod a merched, troseddau cyllyll a dwyn ac ati, felly mae angen sicrhau bod y diwygiadau yn digwydd a'u bod yn cefnogi ac yn atgyfnerthu hynny er mwyn cyflawni'r agweddau y mae'r cyhoedd am eu gweld.

Esboniodd y prif agweddau, sef y bydd gan Lywodraeth y DU Ganolfan Blismona Genedlaethol a fydd yn canolbwyntio ar amlinellu'r blaenoriaethau a dwyn ynghyd swyddogaethau â chylch gwaith cenedlaethol neu drawsffiniol gan geisio, ar yr un pryd, ganfod a sicrhau arbedion effeithlonrwydd a gwaith ar yr holl dechnolegau y maent yn ymwybodol bod eu hangen arnynt i lwyddo i roi'r Ganolfan Genedlaethol ar waith megis Deallusrwydd Artiffisial. Mae gofyniad hefyd i sicrhau bod atebolrwydd am y Ganolfan Blismona Genedlaethol gan y bydd yn gorff pwysig yn ychwanegol at y rhyngwyneb â Chymru yn ogystal â Chymru fel endid yn y Ganolfan Genedlaethol.

Nododd fod y materion y cyfeiriwyd atynt sy'n ymwneud â data yn hollbwysig er mwyn i ni allu meithrin dealltwriaeth a rennir o'r hyn sy'n dda ac, yna, sut y darperir cymorth i heddluoedd nad ydynt yn cyrraedd y safonau hynny.

Nododd Sarah Jones AS mai'r Swyddfa Gartref sy'n darparu'r swm mwyaf drwy'r setliad ar gyfer meysydd â blaenoriaeth gyda chyllid ychwanegol yn cael ei roi ar gyfer meysydd plismona wedi'u targedu megis llinellau cyffuriau. Nid ymddengys fod y system bresennol yn addas i bawb sy'n rhan ohoni oherwydd y diffyg hyblygrwydd lleol, diffyg dylanwad Llywodraeth y DU yn genedlaethol a'r ffaith nad yw'r model yn gweithio i'r cyhoedd er mwyn sicrhau bod cymunedau yn cael yr hyn sydd ei angen arnynt. Felly, nod Llywodraeth y DU yw ei gwneud hi'n haws rhedeg heddlu da a rhoi hyblygrwydd, gan wneud hynny i gyflawni blaenoriaethau o lefel genedlaethol ond gofynnodd sut mae hynny'n gweithio i Gymru fel gwlad.

Gorffennodd drwy nodi ei bod yn gadarnhaol o ran y ffordd y mae Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu, y Coleg Plismona ac Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi yn cyd-fynd â'i gilydd o ran eu barn ar ddiwygio'r heddlu.

**3.2.** Diolchodd y Cadeirydd i'r Gweinidog dros Droseddu a Phlismona am ei diweddariad, gan ychwanegu iddi ysgrifennu ati'n ddiweddar a nodi bod Cymru am gymryd rhan mewn prosesau gwneud penderfyniadau cyn i'r Papur Gwyn gael ei gyhoeddi ac, felly, ei bod yn gadarnhaol bod Swyddogion Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn cydweithio wrth iddo gael ei ddatblygu. Ailddatganodd bwynt Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Dunbobbin ynglŷn â Deddfwriaeth yng Nghymru a'r gwaith sydd wedi'i wneud yng Nghymru fel gwlad am 26 blynedd.

**3.3.** Esboniodd Prif Gwnstabl Hobrough, fel grŵp o Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a Phrif Gwnstabliaid yng Nghymru, mai'r flaenoriaeth yw darparu gwasanaeth o'r radd flaenaf i gymunedau yng Nghymru a meithrin ymddiriedaeth a hyder. Mynegodd bryder ynghylch y datganiad bod cytundeb barn ymhlith yr holl Brif Gwnstabliaid ynghylch diwygio'r system blismona am nad yw hyn yn adlewyrchiad gwir o'r sefyllfa, yn ei barn hi, ac ychwanegodd fod rhai ystyriaethau nad ydynt wedi'u cynnwys yn y cynnig er enghraifft nid yw diwygio'r heddlu yn canolbwyntio ar faterion sy'n ymwneud ag ymddiriedaeth a hyder sydd hefyd yn cynnwys cysylltedd ac ymgysylltu â chymunedau lleol, yn ei farn ef mae'n canolbwyntio gormod ar effeithiolrwydd gweithredol sy'n risg sylweddol fel y nodwyd yn adolygiad y Farwnes Casey.

**3.4.** Roedd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Llywelyn am bwysleisio bod Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a etholwyd yn lleol wedi gwneud cyfraniad sylweddol at sicrhau arbedion sylweddol ym maes caffael am ei fod wedi bod yn aelod o Fwrdd Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu am y 10 mlynedd diwethaf yn ogystal â Bwrdd Gwasanaethau Digidol yr Heddlu cyn hynny. O ran y sylw ar y ffaith mai cyllid y Swyddfa Gartref yw'r swm mwyaf drwy'r setliad, nododd fod cymunedau yng Nghymru yn talu mwy er enghraifft daw tua 55% o'r cyllid yn ardal Dyfed Powys o drethi lleol y gellid dadlau ei fod yn fwy na chyfraniad y Swyddfa Gartref am fod y gymuned leol yn talu am y gwasanaeth yn lleol. Nododd hefyd nad yw gweithgarwch a gyflawnir yn ganolog bob amser yn fwy effeithlon nac effeithiol ac esboniodd ei fod yn aelod o'r Bwrdd Prosiect ar gyfer y Gronfa Ddata Gorfodi'r Gyfraith Genedlaethol y disgwylir iddi fynd yn fyw er mwyn disodli Cronfa Ddata Genedlaethol yr Heddlu ond ei bod wedi cymryd cryn dipyn o amser am gost sylweddol felly nododd, am fod hyn yn cael ei darparu'n ganolog, nad yw, o reidrwydd, yn cyfateb i arbedion effeithlonrwydd.

**3.5.** Ymatebodd Sarah Jones AS, o ran y pwynt ynglŷn â chyllid y Swyddfa Gartref, ei bod yn nodi bod Gweinidogion yn bresennol gyda phot cyffredinol o arian nad oes ganddynt reolaeth drosto ond bod rhannau llai o'r cyllid y maent yn eu rheoli felly ei bod yn amlinellu'r sefyllfa gan bwysleisio, ar yr un pryd, nad yw'r system yn addas am nad yw'n rhoi unrhyw bwerau i'r Ysgrifennydd Cartref bennu unrhyw fframwaith o flaenoriaethau na dylanwad o ran sut y caiff y mwyafrif o'r cyllid ei wario. Ychwanegodd, pe bai unrhyw faterion o bwys yna y byddai'r Ysgrifennydd Cartref yn gyfrifol ond, yn lleol, fod heddluoedd yn cael y bai am eu bod hefyd wedi'u cyfyngu o ran sut mae'r systemau yn gweithio, sy'n cysylltu â'r pwyntiau ynglŷn â chysylltedd â chymunedau lleol, sef rhywbeth y mae'r Papur Gwyn yn ceisio mynd i'r afael ag ef.

**3.6.** Croesawodd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Wools sylw'r Gweinidog dros Blismona a Throseddu ynghylch sicrhau bod rheswm clir dros ddiwygio'r system blismona ac, mewn perthynas â'r

Fframwaith Perfformiad Cenedlaethol newydd i Gymru, galwodd am i'r data hefyd gael eu hystyried yn nhirwedd unigryw Cymru lle mae heddluoedd yn gweithredu fel y nodwyd yn y llythyr at yr Ysgrifennydd Cartref ychydig fisoedd yn ôl. O ran y Ganolfan Blismona Genedlaethol, gwnaed cais hefyd i Gymru gael ei chynrychioli fel gwlad

**3.7.** Pwysleisiodd Prif Gwnstabl Blakeman fod trefniadau cydweithio cadarn ar waith yng Nghymru mewn perthynas ag arbedion effeithlonrwydd gyda Bwrdd Cydweithredol Cymru Gyfan a chydweithrediadau ar lefel Cymru gyfan a rhwng y tri Heddlu ar waith hyd yn oed gyda Heddlu Gogledd Cymru yn cymryd rhan mewn unrhyw gydweithrediadau posibl er mwyn sicrhau effeithlonrwydd. Fodd bynnag, maent yn pryderu ynghylch adnoddau cyfyngedig, yn enwedig lle mae cymunedau gwledig mawr. Nododd na ddylai Cymru golli ei hunaniaeth am ei bod yn wlad â'i diwylliant, ei hunaniaeth a'i hiaith ei hun. Mae'r Fframwaith Perfformiad Cenedlaethol yn dwyn partneriaid i gyfrif lle mae Heddluoedd Cymru yn annatganoledig ac yn gweithio mewn tirwedd ddatganoledig gyda phartneriaid sy'n ddatganoledig, felly mae'n rhaid newid y trefniadau llywodraethu er mwyn iddynt weithio.

**3.8.** Diolchodd y Cadeirydd i'r Gweinidog dros Blismona a Throseddu am fod yn bresennol yn y cyfarfod, gan nodi ei bod yn drafodaeth gynhyrchiol a bod safbwyntiau aelodau'r bwrdd wedi'u clywed. Mae Cymru am ddylanwadu ar y broses ddiwygio yn lle bod Llywodraeth y DU yn ymgynghori â hi wedyn am ei bod yn awyddus i gryfhau'r gwaith da sydd eisoes yn cael ei wneud yng Nghymru. Nododd yr hoffai gyfarfod â Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu yng nghanol mis Ionawr gan na fydd cyfarfod nesaf Bwrdd Partneriaeth Cenedlaethol Cymru yn cael ei gynnal tan fis Mawrth 2026.
**Cam Gweithredu: Swyddogion Llywodraeth Cymru i sicrhau cyfarfod rhwng Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip a Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu yng Nghymru ar gyfer canol mis Ionawr 2026.**

## 4. Blaenoriaethau o ran Diogelwch y Cyhoedd: Aelodau Etholedig ac Ymgeiswyr

Nododd y Cadeirydd ei bod yn bresennol yng nghyfarfod Grŵp Rhyngweinidogol y Swyddfa Gartref ar Ddiogelwch a Mudo ym mis Tachwedd lle y rhannodd gydbryderon yng Nghymru ynghylch y Bil Dedfrydu gyda'r angen i ddarparu cyllid ychwanegol er mwyn helpu i fonitro a chefnogi unigolion a fyddai, fel arall, yn y carchar. Cyfeiriodd hefyd at Etholiadau'r Senedd sydd ar fin cael eu cynnal a'r sefyllfa heriol o ran cysylltiadau cymunedol a System Etholiadol newydd, ac am i Gadeirydd ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Dai a Llywodraeth Leol dynnu sylw at y mater, mae'r Gweinidog Diogelwch wedi cytuno i estyn Ymgyrch Ford i gynnwys Aelodau'r Senedd ac Ymgeiswyr. Yn ddiweddar, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Dai a Llywodraeth Leol y byddai adolygiad annibynnol yn cael ei gynnal er mwyn edrych ar Ymyrraeth Ariannol Dramor â Gwleidyddiaeth yn y DU yn dilyn achos Nathan Gill a nododd ei bod yn sylweddoli y bydd hyn yn heriol yn ystod yr wythnosau a'r misoedd i ddod.

## 5. Cyllido a Chyflawni Strategaeth VAWDASV

Cyflwynodd y Cadeirydd yr eitem gan gyfeirio at Strategaeth VAWG 10 mlynedd Llywodraeth y DU a lansiwyd y diwrnod blaenorol. Felly, mae Llywodraeth Cymru yn adolygu'r strategaeth er mwyn deall y goblygiadau i faterion a gedwir yn ôl a materion datganoledig yng Nghymru. Gallai fod rhywfaint o gyllid ar gael i Gymru. Bydd angen adolygu Strategaeth VAWDASV yng Nghymru o fewn chwe mis i Etholiad y Senedd a'r gobaith yw y caiff ei chysoni â Strategaeth VAWG lle y bo'n briodol er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf posibl ym mhob un o bedair gwlad y DU. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn croesawu ail ran Ymchwiliad Angiolini sydd wedi'i chyhoeddi a'r argymhellion ynddi. Yn ogystal â hyn, ym mis Tachwedd, cynhaliwyd ymgyrch White Ribbon a oedd yn cynnwys 16 diwrnod o Weithredu yn erbyn Trais ar sail Rhywedd.

Nododd fod trais yn erbyn menywod a merched yn rhy gyffredin o lawer ac y dylai menywod fod yn ddiogel ym mhob man cyhoeddus ac, felly, y bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried canfyddiadau Strategaeth VAWG Llywodraeth y DU ac Adroddiad Angiolini. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflawni'r ymrwymiad yn ei Rhaglen Lywodraethu i atgyfnerthu Strategaeth VAWDASV er mwyn cynnwys ffocws ar drais yn erbyn menywod ar y stryd ac yn y gweithle yn ogystal â chydgrynhoi ac ehangu'r sail dystiolaeth wrth fynd ati i atal aflonyddu rhywiol cyhoeddus a mathau eraill o aflonyddu mewn mannau cyhoeddus yn y ffrwd waith aflonyddu ar sail rhywedd ym mhob man cyhoeddus ac ymateb iddynt. Mae'r gwaith yn cynnwys nodi ymyriadau effeithiol ac adolygu argymhellion ar draws pob asiantaeth a chymuned gan ddatblygu dull ataliol system gyfan o sicrhau bod menywod a merched yn teimlo'n fwy diogel.

Mae'r Cadeirydd o'r farn mai un o'r heriau presennol yw'r cynnydd mewn mysoginedd a rhywiaeth mewn cymunedau sydd hefyd wedi'i nodi mewn ysgolion gyda phobl ifanc a niwed ar-lein. Felly, mae gwaith yn mynd rhagddo mewn perthynas â sut y gellir mynd i'r afael â hyn.

Canmolodd Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu Llywelyn am i Heddlu Dyfed Powys ennill Gwobr Cymunedau Mwy Diogel am y camau y mae wedi'u cymryd i fynd i'r afael â stelcio a thrais yn erbyn menywod a merched.

**5.1.** Croesawodd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Wools Strategaeth VAWG Llywodraeth y DU sydd wedi'i chyhoeddi am ei bod yn mabwysiadu dull llywodraeth trawsbynciol ac yn cynnwys ffocws clir ar atal. Cytunodd â sylw'r Cadeirydd, gan fod ymrwymiad trawslywodraethol i ddarparu rhywfaint o gyllid, y bydd ymatebion ac ymyriadau yn symud o'r Swyddfa Gartref i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ac, o bosibl, i adrannau eraill y Llywodraeth, gan nodi ei bod yn bwysig deall y goblygiadau i Gymru. Felly, mae wedi gofyn i Dîm Cyflawni Glasbrint VAWDASV ymgysylltu â thîm polisi Llywodraeth Cymru er mwyn drafftio Asesiad Effaith i Gymru.

**5.2.** Nododd Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu Thomas ei bod yn edrych ymlaen at weithio gyda chydweithwyr er mwyn deall effaith Strategaeth VAWG Llywodraeth y DU. Rhoddodd ddiweddariad byr ar Raglen Gwasanaethau Ymosodiadau Rhywiol Cymru gan ei bod wedi cael ei chodi yng nghyfarfod Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru sawl gwaith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae Cyd-bwyllgor Comisiynu'r GIG wedi cytuno'n ffurfiol i'r rhaglen gael ei throsglwyddo o dîm Perfformiad a Gwella'r GIG i Gyd-bwyllgor Comisiynu'r GIG ond roedd am godi dau bryder dybryd, gan fod sawl gweithdy wedi'u cynnal er mwyn adolygu'r ffordd y mae'r gwaith ar gyfer Rhaglen Gwasanaethau Ymosodiadau Rhywiol Cymru yn cael ei gyflawni, mae tri wedi'u cynnal hyd yma gyda dau arall i'w cynnal ym mis Ionawr 2026. Fodd bynnag, mae wedi dod yn amlwg bod angen gwneud cryn dipyn o waith er mwn cyrraedd sefyllfa lle y gellir cyflawni Rhaglen Gwasanaethau Ymosodiadau Rhywiol Cymru yn llawn ac, o ganlyniad i hyn, mae angen ystyried yr adnoddau sydd ar gael ar fyrder er mwyn helpu i roi'r rhaglen ar waith. Mae pryder ychwanegol ynghylch darparu gwasanaethau cwnsela am ei bod yn amlwg nad oes digon o amser ar gael i wneud gwaith comisiynu ar gyfer trefniadau olynol yn y dyfodol yn lle gwasanaethau cwnsela ar gyfer 2026/27 er mwyn sicrhau eu bod ar waith erbyn 1 Ebrill 2026. Felly mae angen adolygu cyfnod pontio ychwanegol ar gyfer cyllid cwnsela ar fyrder er mwyn cynnal yr amlen lawn o ddarpariaeth i sicrhau na fydd y sefyllfa yn codi lle na all dioddefwyr Ymosodiadau Rhywiol sy'n agored i niwed gael gafael ar wasanaethau cymorth. Nododd y bydd yn cynnal trafodaethau brys â Swyddogion Llywodraeth Cymru a'r Cyd-bwyllgor Comisiynu ond ei bod am godi'r mater yng nghyfarfod y Bwrdd.

**5.3.** Ymatebodd y Cadeirydd drwy nodi y caiff y mater hwn ei drafod â Swyddogion Llywodraeth Cymru ond sicrhaodd aelodau'r Bwrdd ei bod yn credu bod sylw yn cael ei roi i fater cyllid cwnsela.
**Cam Gweithredu: Swyddogion Llywodraeth Cymru i gadarnhau bod sylw yn cael ei roi i'r mater sy'n ymwneud â chyllid cwnsela i Wasanaethau Ymosodiadau Rhywiol Cymru.**
Gorffennodd drwy nodi bod gwaith i'w wneud o hyd am fod cynnydd yn cael ei wneud ond bod heriau newydd yn codi ac, felly, fod yn rhaid ystyried bod VAWDASV yn flaenoriaeth, yn arbennig o ystyried yr uchelgais ar gyfer VAWG yn Strategaeth VAWG.

**6. Materion i'w Diweddaru/Nodi**
**6.a. Setliad Cyllido'r Heddlu**
Nododd y Cadeirydd ei bod yn gadarnhaol bod Prif Gwnstabl Blakeman wedi disgrifio'r problemau sy'n gysylltiedig â Setliad Cyllido'r Heddlu tra bod y Gweinidog dros Blismona a Throseddu yn bresennol. Nododd fod Jane Bryant yn llunio datganiad ysgrifenedig ar y cynnig ar gyfer elfen Llywodraeth Cymru o'r cyllid i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ar gyfer 2026/27 sy'n cynnwys dyraniadau darpariaeth o gyllid refeniw craidd ar gyfer pob Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yng Nghymru.

**6.b. Goblygiadau'r Bil Dedfrydu**
Roedd Prif Gwnstabl Blakeman am dynnu sylw at y ffaith bod yr effaith o ran y gofynion gweithredol ar gyfer maes plismona yn ogystal â'r effaith ar gymunedau mewn perthynas â chyfraddau troseddau yn un sylweddol ac nad yw'r cyllid i allu rheoli unigolion yn y gymuned yn glir ac, felly, fod pryderon sylweddol ynghylch goblygiadau'r bil. Nododd fod pryderon wedi'u codi yn y fforymau priodol am fod heddluoedd yn rhagweld cynnydd mewn cyfraddau troseddu ac effaith ar allu'r sector plismona i'w reoli heb gyllid ychwanegol.

**6.b.1** Nododd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Wools fod Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu yn gwneud cryn dipyn o waith ar yr effaith ar faes plismona ac, fel rhan o'r gwaith hwnnw, fod proses casglu data genedlaethol yn mynd rhagddi er mwyn deall y cynnydd posibl yn y galw yn genedlaethol ac yn rhanbarthol.

**6.c. Cyfarfodydd Plismona yng Nghymru â'r Ysgrifennydd Parhaol a'r Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

Nododd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Wools iddi gyfarfod â'r Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghyd â Phrif Gwnstabl Blakeman. Diben y cyfarfod oedd tynnu sylw at yr angen i gryfhau'r gydberthynas rhwng y sector plismona a'r sector iechyd am fod nifer o feysydd cyffredin y mae angen iddynt gydweithio arnynt ac y gall deall strwythurau iechyd fod yn anodd i'r sector plismona ond cytunwyd yn y cyfarfod y dylid llunio blaengynllun gydag Uwch-arweinwyr o'r sector plismona a'r sector iechyd ynghylch blaenoriaethau a rennir ac er mwyn nodi problemau a heriau presennol a gwneud trefniadau ar ei gyfer.

**6.d. Cydweithredu rhwng yr Heddlu â'r Sector Addysg**

Nododd y Cadeirydd fod Swyddogion Llywodraeth Cymru yn trafod sut i ffurfioli'r bartneriaeth newydd a sut y gellid blaenoriaethu unrhyw fuddsoddiad gan Lywodraeth Cymru. Mae'n credu bod cyfle drwy ethos y Rhaglen Ysgolion Bro sy'n datblygu am ei bod yn canolbwyntio ar greu partneriaethau cryf â theuluoedd ac ymateb i anghenion cymunedau. Rhoddir diweddariad pellach yn y flwyddyn newydd.

## 7. Cofnodion y cyfarfod blaenorol (23/10/25)

Roedd pawb yn cytuno bod cofnodion y cyfarfod ar 23 Hydref 2025 yn gywir. Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad ar y camau sy'n cael eu cymryd mewn perthynas â chyfarfod â Sarah Murphy AS a Dawn Bowden er mwyn trafod cyllid ar gyfer Gwasanaethau Ymosodiadau Rhywiol Cymru, gan nodi y byddai'r cyfarfod hwn yn cael ei gynnal ar ddechrau 2026, yn ogystal â threfnu ymweliad â Swyddfeydd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu er mwyn gweld y rôl y maent yn ei chyflawni mewn cymunedau yng Nghymru.

## 8. Unrhyw Fater Arall

Ni chodwyd unrhyw fater arall.

**Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf**

Dydd Iau 5 Mawrth 2026, 13:00-15:00